

Y Pum Safon Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

ADDYSGEG		
MIREINIO ADDYSGU	HYRWYDDO DYSGU	DYLANWADU AR DDYSGWYR
Rheoli'r amgylchedd dysgu Asesu Gwahaniaethu Cofnodi ac Adrodd Cynnwys Partneriaid mewn dysgu	Pedwar diben i ddysgwyr Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu Profiadau dysgu cyfunol Cyd-destunau bywyd go iawn dilyn Dilyniant mewn dysgu Themâu trawsgwricwlaidd	Herio a disgwyliadau Gwrando ar ddysgwyr Dysgwyr yn arwain dysgu Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr Myfyrion ar ddysgu Deilliannau dysgu a lles
CYDWEITHREDU		DYSGU PROFFESIYNOL
Ceisio cyngor a chymorth Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol Cefnogi a datblygu eraill Galluogi gwelliannau		Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol Dysgu proffesiynol parhaus Sgiliau Cymraeg
ARLOESI		ARWEINYDDIAETH
Cynnig arbenigedd Datblygu technegau newydd Gwerthuso effaith newid mewn ymarfer		Cymryd cyfrifoldeb personol Arfer cyfrifoldeb corfforaethol Arwain cyd-weithwyr, prosiectau a rhaglenni Cefnogi rolau arweinyddiol ffurfiol

Mae disgwyl bydd pob athro yn ymrwymo i'r Safonau Proffesiynol a'u datblygu.

Gwerthoedd ac Ymagweddau Cyffredin

- Iaith a Diwylliant Cymru**

Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.
- Hawliau Dysgwyr**

Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.
- Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol**

Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.
- Dysgwyr Proffesiynol**

Mae'r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi'n barhaus drwy gydol ei yrfa.
- Rôl yn y System**

Mae'r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.
- Hawl Broffesiynol**

Mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo'r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i'r ysgol er budd dysgwyr.